# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Gorfodi*

## 19 Eiddo a gedwir: apelau

(1) Caiff person ("P") a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o dan adran 17(1)(c) ("eiddo a gedwir") wneud cais drwy gŵyn i unrhyw lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau, naill ai i P neu i berson arall.

(2) Os yw'r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni nad yw'n angenrheidiol parhau i gadw'r eiddo a gedwir at ddiben canfod a yw trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon gynnwys pa ddarpariaeth bynnag y mae'r llys yn meddwl ei bod yn briodol er mwyn gohirio ei ddwyn i rym wrth aros i apel (gan gynnwys cais o dan adran 111 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (Magistrates' Courts Act 1980 (c. 43))) gael ei gwneud a dyfarnu arni.

(4) Os yw'r llys yn gohirio gwrandawiad cais o dan yr adran hon, caiff wneud gorchymyn mewn cysylltiad a'r eiddo a gedwir sy'n para tan wrandawiad terfynol y cais neu hyd nes y gwneir unrhyw orchymyn pellach, os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

(5) Nid oes dim byd yn yr adran hon sy'n effeithio ar unrhyw bŵer arall sydd gan y llys i wneud gorchymyn mewn cysylltiad â'r eiddo a gedwir, gan gynnwys unrhyw bŵer i wneud gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu (Eiddo) 1897 (Police (Property) Act 1897 (c.30)) (pŵer i wneud gorchymyn mewn cysylltiad ag eiddo sydd ym meddiant yr heddlu).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 19 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 19.